# Chris A. Williams

Yr Adran Hanes
Cyfadran y Celfyddydau
Prifysgol Bresennol
Unrhyw Dref
UK1 1AA

E-bost: chris@prifysgol.ac.uk

Rhif Ffôn: cartref, gwaith a ffôn symudol

## Ymchwil Bresennol

Mae fy niddordebau ymchwil yn cynnwys:

- Pob agwedd ar hanes troseddu a phlismona ers tua 1750, yn enwedig yng nghyswllt heddlu Prydain a'r trefedigaethau Prydeinig.
- Cadw cofnodion heddluoedd Prydain.
- Hanes cyhoeddus cyfiawnder troseddol yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.
- Y cysylltiad rhwng hanes a chof.

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar brosiect sy'n cael ei ariannu gan AHRC - '*Policing and Citizenship: Resourcing a Better Understanding*'. Cefais grant o £42,000 i wneud y prosiect hwn yn 2006.

## Cyflogaeth

### Y Brifysgol Agored, 1999 – presennol

Darlithydd Hanes, Medi 2003 – presennol a Chymrawd Ymchwil, Hydref 1999 - Medi 2003

**Prif Gyflawniadau**: Rwy'n Gadeirydd tri thîm cwrs ac yn diwtor ar dri modiwl ymchwil MA. Rwyf wedi bod yn aelod o banel Ymarfer Asesu Ymchwil yr Adran Hanes er 1996. Yn 1996 cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Cyrsiau Ysgol Haf y Brifysgol Agored yng Ngholeg Queen Mary, Prifysgol Llundain. Cefais fy mhenodi yn ddiweddar yn arholwr allanol i'r adran hanes ym Mhrifysgol Huddersfield. Mae rhestr fer o'm cyhoeddiadau i'w gweld yn Atodiad Un.

Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn gwneud hanes yn hygyrch i gynulleidfa ehangach, ac yn 2005 cyflwynais syniad ar gyfer rhaglen ar BBC Radio 4 a ddaeth yn ddiweddarach yn gyfres o ddarllediadau dros gyfnod o 2 flynedd. Roeddwn yn ymgynghorydd academaidd i'r gyfres hon, *"The Things We Forgot to Remember"* (darlledwyd ym Mai, Mehefin 2005, Tachwedd 2006, Ebrill, Rhagfyr 2007). Bûm hefyd yn awdur ymgynghorol ar gyfer CD Rom a gyhoeddwyd gan y Brifysgol Agored - *"Images in the History of Medicine"*.

Ar hyn o bryd rwy'n goruchwylio 4 myfyriwr PhD y mae eu gwaith yn ymwneud â hanes plismona a system cyfiawnder troseddol y Deyrnas Unedig.

### Prifysgol Caerlŷr, 1992-1999

Bûm yn cynnal dosbarthiadau tiwtorial ar gyfer pum modiwl, i gyd ar lefel israddedigion, ar gyfer yr Adrannau Hanes/Hanes Economaidd a Chymdeithasol ac roeddwn yn arddangoswr ar gyfer modiwl TG lefel 2.

Cynlluniais wefan a'i rhoi ar waith ar gyfer cwrs yn cael ei gefnogi gan ddeunydd ar y we ar hanes trawsgludo carcharorion. Mae'r wefan i'w gweld yn http://www.le.ac.uk/esh/ca26/eh400/index.html

### Prifysgol Sheffield, 1993-1998

Yn ystod y cyfnod hwn, bûm yn cynnal dosbarthiadau tiwtorial ac yn marcio arholiadau ar gyfer cyrsiau amrywiol, i gyd ar lefel israddedigion. Yn 1995-1996 roeddwn yn dechnegydd cyfrifiadurol yn yr Adran Hanes.

## Addysg

PhD Hanes (Gwyddorau Cymdeithasol), Prifysgol Sheffield, 1993-98
Thesis: ***Police and Crime in Sheffield 1818-1874*** dan oruchwyliaeth Dr P C Puw

MA Hanes Trefol, Prifysgol Caerlŷr, 1991-92. Cael Rhagoriaeth

BA (Anrhydedd) Hanes Modern, Prifysgol Rhydychen, 1987-90. Cael Ysgoloriaeth gan y Brifysgol yn 1988. Dosbarth terfynol: 2i

## Grantiau a Ddyfarnwy

- 2006: Grant Doethurol Cydweithredol AHRC, £42,000
- 2003: Grant Cynhadledd Dramor yr Academi Brydeinig, £800

## Cynadleddau

Yn ystod 1994-2007, cyflwynais 40 o bapurau mewn nifer o gynadleddau gan gynnwys:

- *Adventure is such fun: policing, technocracy and colonialism in the life of Athelstan Popkess* i seminar *'Post-Colonial'* Prifysgol Caerlŷr Chwefror 2005
- *Pursuit* i'r 'International Centre for Convict Studies', Strahan, Tasmania Mehefin 2003
- *Networks and connections in police forces between the UK and its formal and informal empires before 1914* i seminar *'Empires of Expertise'*, Prifysgol Caerlŷr Mawrth 2003
- *Home and Away: Imperial and Post-Imperial Policing and its impact upon the British Police, 1921-1985* (gyda Georgina Sinclair) i gynhadledd *'Post-Imperial Britain'* Sefydliad Hanes Cyfoes Prydain Gorffennaf 2002
- *The history of police surveillance in the UK* i'r *'Panel on Surveillance'*, Prifysgol Essex Mawrth 2002
- *Counting out crime: Sheffield's criminal statistical returns in the mid-nineteenth century* i Gyfarfod Grŵp Hanes Trefol, Prifysgol Glasgow Mawrth 2001

Ym mis Gorffennaf 2004 trefnais gynhadledd:

- *Heritage and History of the UK Criminal Justice System,* i'r Brifysgol Agored. *Daeth tua* 80 o gynrychiolwyr i'r gynhadledd ac roedd yno 12 o siaradwyr gwadd. Cyhoeddwyd y papurau dilynol fel *'Giving the Past a Future: Preserving the Heritage of the UK's Criminal Justice System'* (Francis Boutle: Llundain, 2004)

## Aelodaeth

Aelod cyswllt o Ganolfan Ryngwladol y Brifysgol Agored ar gyfer Ymchwil Droseddegol Gymharol

- Y Gymdeithas Hanes Cymdeithasol
- Cymdeithas Hanes yr Heddlu
- Aelod o bwyllgor Rhwydwaith Amgueddfeydd ac Archifdai Troseddau a Chosb [Rhwydwaith Arbenigwyr Pwnc sy'n cael ei gydnabod gan yr MLA]

## Canolwyr

*Rhowch fanylion cysylltu llawn eich pennaeth adran/grŵp ymchwil presennol (gwnewch yn siŵr ei fod ef neu hi yn gwybod manylion y swydd rydych yn ymgeisio amdani) a chydweithiwr arall uchel ei barch mewn maes perthnasol.*

## Atodiad Un: Cyhoeddiadau(Crynodeb)

Mae rhestr lawn o'm holl gyhoeddiadau i'w gweld ar fy nhudalennau gwe yn www.fynhudalennaugwe.ac.uk

### Adolygiadau:

'Crime and Power' gan P. Rawlings ar gyfer Crime, Histoire & Sociétés/Crime, History & Societies, Tachwedd 2000.
'William Augstus Miles, 1796-1851: crime, policing and moral entrepreneurship in England and Australia' gan David Philips ar gyfer English Historical Review, Ebrill 2003, tt. 528-530.
Arddangosfa 'The Creative Prison' ar gyfer Crime, Media Cultures, Cyfrol. 2, Rhif 12, (2006), tt. 353 – 356.
'History and the Media' golygwyd gan David Cannadine ar gyfer Cultural and Social History.

### Erthyglau mewn cyfnodolion sy'n cael eu hadolygu gan gymheiriaid:

'Counting crimes or counting people: some implications of mid-nineteenth century British police returns' yn Crime, Histoire & Sociétés/Crime, History & Societies. Cyfrol 4, Rhif 2 (Tachwedd 2000), 77-93.
'Catégorisation et stigmatisation policières á Sheffield au milieu du XIXe siècle' in Revue d'Histoire Moderne et Contemporaine Cyfrol 50, Rhif. 1 (Ionawr-Mawrth 2003) tt. 104-125.
[Gyda Georgina Sinclair] ''Home and Away'; the Cross Fertilisation between 'Colonial' and 'British' Policing, 1921-1985' Journal of Imperial and Commonwealth History, i ddod, 2007.

### Penodau mewn Llyfrau:

'The Sheffield Democrats' critique of criminal justice in the 1850s' yn R. Colls ac R. Rodger (gol) Cities of Ideas: Civil Society and Urban Governance in Britain 1800-2000 (Ashgate: Aldershot, 2004) tt. 96-120. [0 7546 0650 3]
'Police and the Law' yn S. Berger (gol) Blackwell Companion to Nineteenth Century Europe (Blackwell: Rhydychen, 2006), tt. 345-354. [1 4051 1320 0]

### Crynodeb o'r PhD: *Police and Crime in Sheffield, 1818-1874*

Drwy gymdeithaseg pŵer, gellir creu model rhyngweithiad sy'n canolbwyntio ar 'feysydd pŵer'. Drwy gadw gwahanol fathau o bŵer ar wahân, gellir cynnal goruchafiaeth dosbarth llywodraethol heb ddatgelu llawer o annhegwch.

Ad-drefnwyd heddlu Sheffield yn 1818. Bwriad y llu gwylio oedd amddiffyn eiddo yn y nos, a chafodd ei gyflwyno fel llu oedd hefyd yn cadw trefn ac yn diogelu pobl. Roedd gan y llu hwn broblemau disgyblaeth, ond roedd yn effeithiol, ac roedd yn cael ei oruchwylio'n well wrth i amser fynd yn ei flaen. Yn 1836 ffurfiwyd heddlu dydd. Yn 1843, yn hytrach na chael ei phlismona gan y sir, ymgorfforodd Sheffield, gan roi terfyn ar yr anghytuno ynglŷn â'r trefniadau diwygio oedd wedi bod yn amharu ar gonsensws cyffredinol grŵp llywodraethu'r dref. Yn dilyn yr ymgorffori daeth y cyngor bwrdeistref yn gyfrifol am yr heddlu, a disodlwyd y cwnstabliaid plwyf – corff effeithlon a phroffesiynol. Er gwaetha'r prinder cyllid ac er colli grant y llywodraeth yn 1862-4 gan nad oedd y cyngor yn fodlon gwario digon, yn raddol daeth yr heddlu'n fwy effeithlon. Yn y 1850au roedd Pwyllgor Gwylio profiadol yn cyfarwyddo'r broses hon: yn y 1860au roedd yn cael ei arwain gan Brif Gwnstabl uchel iawn ei barch, sef John Jackson. Ar ddechrau'r 1850au heriwyd yr heddlu gan blaid y Democratiaid yn Sheffield, ond methodd eu hymdrech i ailfodelu llywodraeth leol yn sefydliad a oedd yn cael ei reoli gan gymdogaeth.

Dengys y datganiadau ystadegol bod gan yr heddlu gyrhaeddiad eang, a hyd yn oed erbyn 1850 mae'n debyg bod tua 25% o ddynion Sheffield wedi cael profiad o gael eu harestio. Cyfeirid gweithgaredd yr heddlu'n bennaf tuag at fân achosion o anhrefn, yna cadw 'rheolaeth'. Roedd y rhan fwyaf o'r ymosodiadau'n cael eu herlyn yn breifat, er bod gweithgaredd gwrth-droseddu preifat a chyfunol, a oedd yn aml yn symbolaidd, wedi gostwng yn ystod y ganrif wrth i'r defnydd o sefydliadau gynyddu. Mae'r ystadegau eu hunain yn dangos tystiolaeth o labelu ôl-weithredol, a rheolid eu cyflwyniad er mwyn helpu i reoli ofn troseddau.